

Sesiwn 5:

# Gweddi Heb ei Hateb

## Canllaw Astudio Grwpiau Bach

### 1. Cyflwynwch y sesiwn 5 munud

Adnod allweddol “Gwneler dy ewyllys” - Mathew 6:10

- Yn y sesiwn hon byddwn yn mynd i'r afael â'r heriau a'r realiti pan na fydd ein gweddïau'n cael eu hateb.
- Dechreuwch y sesiwn trwy agor mewn gweddi.

### 2. Gwyliwch y Fideo 25 munud

Darnau o'r Beibl. Marc 14:32-36, Daniel 3, Rhufeiniaid 5:3-5

#### Pwyntiau crynhoi

- Mae'r Beibl yn onest am weddi heb ei hateb – rydyn ni'n rhan o ffydd sy'n ymwneud â reslo.
- Byd Duw, rhyfel Duw, ewyllys Duw.
- Nid yw distawrwydd Duw'r un peth â'i absenoldeb.

### 3. Cwestiynau Trafod 20 munud

C. Beth oedd fwyaf defnyddiol neu fwyaf heriol yn y fideo i chi?

C. Pa fodd y mae gwirionedd gweddi heb ei hateb wedi effeithio ar eich perthynas â Duw ?

C. A ydych erioed wedi teimlo distawrwydd / absenoldeb Duw yn nymhorau eich bywyd a'ch ffydd ?  
Sut wnaethoch chi ymateb?

**Dywed Pete, “Rydym yn rhan o ffydd sy'n ymwneud ag reslo”.**

C. Sut ydych chi'n meddwl y gallwn ni wella, fel cymunedau, wrth ymdrin â'r gwirioneddau a heriau gweddi heb ei hateb?

C. Pa fodd y gallwn annog ein gilydd mewn “ffydd” a “ffyddlondeb”?

## 4. Gweithredu

10 munud

Dywed Pete, “Hyd yn oed pan nad ydym yn deall, gallwn o hyd ymddiried”.

Cymerwch amser i stopio, oedi ac ailymrwymo i ymddiried yn Nuw gyda'ch gilydd fel grŵp.

Efallai yr hoffech chi chwarae rhywfaint o gerddoriaeth addoli a threulio amser yn eistedd ac yn myfyrio.

### Nodyn i'r arweinydd

Os yw hwn yn gam anodd i aelodau'ch grŵp, efallai yr hoffech chi weddio'n benodol i'w sefyllfa nhw, neu efallai yr hoffech chi ddarllen Salm o Alarnad gyda'ch gilydd (gweler y Sied Offer am gyfarwyddiadau a chyfarwyddiadau ar hyn).

### Adnoddau'r Sied Offer: Gweddi Heb ei hateb

Gellir dod o hyd i'r rhain yn [prayercourse.org/toolshed](https://prayercourse.org/toolshed)

- “The Prayer of Relinquishment” - Y Weddi sy'n Gollwng Gafael.
- “How to Lament” - Sut i Alaru